ENTREPRENEUR ELUSENNOL

Ers dros 30 o flynyddoedd, mae Tywysog Cymru wedi bod yn flaenllaw wrth adnabod angen elusennol a sefydlu a hybu elusennau i ddiwallu'r angen hwnnw. Ers dyddiau cynnar ei ymddiriedolaeth, *The Prince's Trust*, yng nghanol yr 1970au, tyfodd ei ddiddordebau elusennol i'r fath raddau fod ei 19 elusen graidd yn cynrychioli, fel grŵp, y fenter elusennol fwyaf yn y DU sy'n cwmpasu amryw o achosion. Gymaint yw mesur gwaith Elusennau'r Tywysog fel y bu gofyn yn 2007-08 i'w Uchelder Brenhinol helpu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i godi £122 miliwn i gynorthwyo'u gweithgareddau. Mae'r Tywysog hefyd wedi sefydlu chwe menter gymdeithasol y mae eu helw'n mynd at elusennau.

£122 MILIWN AT ELUSENNAU

Fel entrepreneur elusennol, efallai fod Tywysog Cymru'n fwyaf enwog am sefydlu *The Prince's Trust*, elusen sy'n helpu pobl ifanc gythryblus sydd dan anfantais i oresgyn eu rhwystrau ac i lwyddo. Mewn nifer o ffyrdd, mae'r Ymddiriedolaeth a gafodd ei sefydlu 32 o flynyddoedd yn ôl, yn cynnig patrwm ar gyfer dull gweithredu Ei Uchelder Brenhinol ym maes entrepreneuriaeth elusennol. Ar ôl adnabod angen, mae'n mynd ati i sefydlu elusen i lenwi'r bwlch, cyn mynd ymlaen i oruchwylio'i strategaeth a'i dull rheoli ac i godi arian i ariannu ei gweithgareddau.

Yn 2007-08, helpodd y Tywysog, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i godi £122 miliwn i gynorthwyo gwaith ei 19 elusen graidd. Mae'r Tywysog hefyd wedi sefydlu chwe menter gymdeithasol y mae eu helw'n mynd at elusennau.

Tra bod pob un o'r elusennau'n endid annibynnol dan ofal Bwrdd o Ymddiriedolwyr, maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd hefyd o fewn grŵp Elusennau'r Tywysog dan arweiniad Syr Tom Shebbeare. Maen nhw'n cydweithio'n agos ar faterion fel llywodraethu corfforaethol, codi arian, cynllunio, cyfathrebu, adnoddau dynol ac ymchwil er mwyn sianelu eu hegni a bod mor effeithlon a chost effeithiol â phosib.

Syniadau yw enaid unrhyw fudiad llwyddiannus ac mae Tywysog Cymru wedi symbylu llif gyson o gynigion ym maes ymchwil a datblygu dros y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys adroddiad ar ddisgwyliadau pobl dros 50 oed o gael gwaith, asesiad strategol o'r farchnad "rhoi mewn da" yn y DU, ac astudiaeth o werth economaidd bywyd trefol traddodiadol ym maes datblygu eiddo.

Mae gwerth llawer o'r rhaglenni ymchwil a datblygu hyn yn amlwg, ac maen nhw wedi symud o'r cam treialu at ddod yn fudiadau sydd wedi'u hariannu'n llawn. Yn eu plith nhw y mae'r project *Accounting for Sustainability*, a greodd ar ôl blwyddyn o waith dwys batrwm sylfaenol ar gyfer cwmnïau a mudiadau sy'n dymuno gwneud mwy i ymgorffori cynaliadwyedd yn eu prosesau a'u penderfyniadau o ddydd i ddydd. Mae hefyd yn cynnig fframwaith ar gyfer creu adroddiadau cliriach a mwy cryno ar gynaliadwyedd y byddai modd eu defnyddio wrth gymharu.

Un arall o ganlyniadau llwyddiannus y rhaglen ymchwil a datblygu yw *Charity Next*, menter sydd â'r nod o roi cyfleoedd i bobl ifanc mwyaf galluog a thalentog y sectorau preifat a chyhoeddus ddefnyddio'u sgiliau a'u brwdfrydedd mewn swyddi allweddol yn y sector elusennol. Gan fod y broses ymchwil bron â dod i ben, y gobaith yw lansio'r cynllun newydd yn hydref 2008.

Sefydliad Elusennau'r Tywysog (*The Prince's Charities Foundation*) sy'n cyd-drefnu'r gwaith ymchwil a datblygu. Mae'r sefydliad yn bodoli'n unswydd i reoli a dyrannu'r arian y mae'r cwmnïau masnachu (neu'r mentrau cymdeithasol) sy'n perthyn i'r grŵp yn ei godi, a'r arian sy'n dod trwy ffynonellau eraill fel gwerthu lithograffau o luniau dyfrlliw'r Tywysog a gwerthu ei lyfrau, gwerthu nwyddau yn siopau Highgrove a Tetbury, digwyddiadau elusennol a rhoddion.

CYFLE A MENTER	YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG	BUSNES CYFRIFOL
THE PRINCE'S TRUST THE PRINCE'S SCOTTISH YOUTH BUSINESS TRUST PRIME PRIME-CYMRU	THE PRINCE'S FOUNDATION FOR THE BUILT ENVIRONMENT THE PRINCE'S REGENERATION TRUST TURQUOISE MOUNTAIN THE GREAT STEWARD OF SCOTLAND'S DUMFRIES HOUSE TRUST	BUSINESS IN THE COMMUNITY SCOTTISH BUSINESS IN THE COMMUNITY THE PRINCE OF WALES INTERNATIONAL BUSINESS LEADERS FORUM IN KIND DIRECT ARTS & BUSINESS THE PRINCE OF WALES'S BUSINESS & THE ENVIRONMENT PROGRAMME (Prifysgol Caergrawnt)
	THE PRINCE'S CHARITIES & THE PRINCE'S CHARITIES FOUNDATION	
ADDYSG	MENTER GYMDEITHASOL	IECHYD
THE PRINCE'S DRAWING SCHOOL THE PRINCE'S SCHOOL OF TRADITIONAL ARTS THE PRINCE'S TEACHING INSTITUTE THE PRINCE'S FOUNDATION FOR CHILDREN & THE ARTS	DUCHY ORIGINALS NORTH HIGHLAND INITIATIVE TRADITIONAL ARTS LTD TURQUOISE MOUNTAIN ARTS THE HIGHGROVE SHOP THE PRINCE'S CHARITIES EVENTS LTD	THE PRINCE'S FOUNDATION FOR INTEGRATED HEALTH

Yn ogystal â chynorthwyo rhai o elusennau'r Tywysog, rhoddwyd peth o arian y sefydliad y llynedd i dros 100 o brojectau elusennol eraill. Ymhlith y gwahanol fuddiolwyr oedd elusennau sy'n gweithio mewn meysydd fel yr amgylchedd, iechyd, addysg a hyfforddiant, a'r amgylchedd adeiledig.

Ar ben hynny, aeth rhoddion i hosbisau, mentrau iechyd, ac elusennau sy'n helpu pobl y mae trychinebau naturiol wedi effeithio arnyn nhw. Bu Ei Uchelder Brenhinol yn arbennig o awyddus erioed i gynorthwyo mudiadau sy'n helpu dynion a gwragedd sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, yn cynnwys y rheini sydd wedi gadael ac sydd wedi mynd i drafferthion. Ymhlith yr elusennau milwrol a elwodd ar roddion gan y Tywysog y llynedd oedd *The Brigade Major's Fund*, a ddefnyddiodd yr arian i dalu am addurno gwarchodfa ac ystafell fwyta, a *Troop Aid*, elusen sydd â'i chartref yn Ysbyty Selly Oak yn Birmingham, a ddefnyddiodd y rhodd i brynu dewis helaeth o eitemau personol i aelodau o'r Lluoedd a anafwyd yn Irac ac Affganistan.

Un o'r datblygiadau pwysicaf yn hanes elusennau'r Tywysog y llynedd oedd creu gwefan newydd – www.princescharities.org – sydd â'r nod o esbonio gwaith yr 19 elusen a'r chwe menter gymdeithasol, ac i annog pobl i gyfrannu at eu gwaith.

Mae'r wefan yn cynnig i unrhyw un sydd am ymwneud â'r elusennau'r newyddion diweddaraf am bob un, blogs rheolaidd gan rhai o staff allweddol yr elusennau, mynediad arbennig at ddigwyddiadau elusennol, disgownt ar bris tocynnau i ymweld â'r cartrefi Brenhinol, cylchlythyr misol a DVD am ddim ynglŷn ag elusennau'r Tywysog. Yn bwysicaf oll, mae'r wefan newydd yn cynnig cyfle i bobl gysylltu'n uniongyrchol â'r mudiadau eu hunain, a hefyd gyda'r miloedd o staff a'r cefnogwyr sy'n gweithio ar ran yr elusennau.

Mae manylion am yr 19 elusen, ynghyd â manylion cyswllt i'w cael ar dudalen 60 o'r Adolygiad hwn ac ar www.princescharities.org.

CYFLE A MENTER

Ers sawl blwyddyn bellach, mae'r Tywysog wedi ymdrechu trwy ei elusennau i helpu pobl i wireddu eu talent a'u potensial. Mae'n gwneud hyn trwy gynorthwyo dynion a merched ifanc dan anfantais trwy waith *The Prince's Trust*, neu trwy gynnig cymorth i bobl hŷn trwy ei elusen PRIME (Menter y Tywysog ar gyfer Arloesi Aeddfed - *The Prince's Initiative for Mature Enterprise*), yr unig gorff cenedlaethol sy'n bodoli'n unswydd i helpu pobl dros 50 oed i sefydlu busnesau.

The Prince's Trust yw elusen hynaf ac enwocaf Ei Uchelder Brenhinol. Aeth ati i sefydlu'r mudiad yn 1976 gyda'r tâl diswyddo o £7,400 a gafodd wrth adael y Llynges Frenhinol. Ei nod yw helpu pobl ifanc 14-30 oed i wireddu eu potensial a gweddnewid eu bywydau trwy gynnig cefnogaeth ymarferol fel hyfforddiant a mentora, yn ogystal â chymorth ariannol i entrepreneuriaid ifanc.

Bob blwyddyn, mae Tywysog Cymru'n mynd i lawer o wahanol ddigwyddiadau, derbyniadau a chyfarfodydd ar ran yr Ymddiriedolaeth. Un o'r uchafbwyntiau bob blwyddyn yw'r gwobrwyon *Celebrate Success*, ac ym mis Mawrth 2008 ymunodd llu o genhadon â'i Uchelder Brenhinol yn theatr yr Odeon yn Leicester Square yn Llundain i anrhydeddu pobl ifanc sydd wedi manteisio ar gymorth yr elusen i oresgyn digartrefedd, caethiwed i gyffuriau a diweithdra, ac wedi mynd ymlaen i lwyddo.

Un o'r enillwyr oedd Claire Hutchinson, sy'n 29 oed ac yn fam i dri o blant. Defnyddiodd Claire gymorth mentora a benthyciad llog isel gan ymddiriedolaeth y Tywysog i sefydlu busnes ailgylchu. Mae ei chwmni bellach yn cyflogi 25 o bobl ac mae wedi rhoi dros £125,000 i elusen leol ar gyfer plant ag afiechydon terfynol. Dywedodd yr actor Kevin Spacey a gyflwynodd y dyfarniad "*Capgemini Enterprise*" i Ms Hutchinson: "Mae llwyddiant Claire yn dangos sut y gall ychydig iawn o gymorth fynd yn bell, bell iawn."

Un o brif nodweddion gwaith *The Prince's Trust* yw'r ffordd y mae'n cynorthwyo troseddwyr ifanc, ac ym mis Mai 2007 aeth Ei Uchelder Brenhinol i Polmont i ymweld â'r sefydliad mwyaf yn yr Alban ar gyfer troseddwyr ifanc. Cafodd gyfle i gwrdd â rhai o'r bobl ifanc, ac i fynd o gwmpas y carchar gyda swyddogion datblygu'r elusen a grŵp o gyndroseddwyr. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y Tywysog gyfle i gwrdd â Kenny MacAskill, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder yn yr Alban, i drafod sut y gallai'r ymddiriedolaeth helpu mwy o droseddwyr ifanc i ddod yn ddinasyddion cynhyrchiol.

Un ffordd o helpu pobl ifanc i wella'u bywydau yw trwy annog entrepreneuriaid ifanc. Ym mis Gorffennaf 2007 aeth y Tywysog i Glasgow i gwrdd â phobl sydd wedi elwa ar gymorth gan ei elusen *Scottish Youth Business Trust*, sy'n cynnig benthyciadau a chymorth proffesiynol i ddynion a gwragedd ifanc ym myd busnes. Un o'r cwmnïau sydd wedi elwa ar help yr elusen yw RACE Engineering yn Paisley, ac roedd Ei Uchelder Brenhinol yn falch iawn o'r cyfle i fynd o gwmpas ei safle gyda'r ddau ddyn a'i sefydlodd, Kevin McGinn ac Iain Wright. Clywodd y ddau'n esbonio sut roedd y cwmni wedi tyfu ers iddyn nhw gael benthyciad i ddechrau yn 2003. "Fe ddechreuon ni bedair blynedd yn ôl yn gweithio o'n hystafelloedd gwely. Nawr rydyn ni'n sefyll y tu allan i safle'r cwmni'n cwrdd â Thywysog Charles. Mae'n anhygoel", dywedodd Mr Wright.

Roedd Paul Kenny, 23 oed o Fanceinion (ar y dde, gyda Thywysog Cymru yn 2007) yn gaeth i drobwll o iselder, alcohol a mân droseddau cyn troi at *The Prince's Trust*. Pan roedd pethau ar eu gwaethaf, yr unig ffordd y gallai Paul oroesi oedd trwy gysgu dan y sêr a dwyn bwyd o siopau.

Ond, er 2006 a gyda help yr Ymddiriedolaeth, Gwasanaeth Tân ac Achub Manceinion Fawr a *Manchester United* mae Paul wedi gweddnewid ei fywyd. Ymunodd a rhaglen *Team, The Prince's Trust*, gan ennill cymwysterau trwy fenter bêl-droed yr ymddiriedolaeth, yn cynnwys dyfarniad fel arweinydd chwaraeon cymunedol. Gwnaeth gymaint o argraff ar yr uwch-swyddogion tân fel y cafodd gontract chwe mis o hyd gyda'u huned hyfforddi.

Mae Paul yn gweithio bellach fel Cynorthwyydd Hyfforddi ac mae'n gobeithio mynd yn ddiffoddwr tân. Dywedodd mai'r Gwasanaeth Tân a'r Ymddiriedolaeth sydd wedi rhoi iddo'r hunanhyder a oedd ar goll. "Fe wnaethon nhw wneud i mi sylweddoli y gallwn i gyflawni pe bawn i'n troi ati. Rydw i wedi symud ymhell ymlaen. Gall rhywun lwyddo i wneud unrhyw beth trwy gredu ei fod e'n bosib, yn arbennig gyda help pobl eraill."

Mae'r Tywysog yn credu bod pobl aeddfed sy'n rhedeg eu busnesau bach eu hunain yn haeddu cefnogaeth hefyd, ac ym mis Mehefin 2007 lansiodd Ei Uchelder Brenhinol gynllun mentora newydd dan arweiniad PRIME-Cymru. Cynhaliwyd yr achlysur mewn gwesty moethus pum seren sy'n cynnig gwely a brecwast yng nghefn gwlad Ynys Môn ac sy'n cael ei redeg gan gwpl a ddechreuodd y busnes gyda benthyciad gan gangen Cymru o'r elusen.

Mewn adroddiad o'r enw "*Improving Employment Prospects for the Over 50s*" a gyhoeddwyd gan PRIME a PRIME-Cymru ar y cyd ym mis Ionawr 2008, tanlinellodd yr economegydd Christopher Smallwood bwysigrwydd helpu entrepreneuriaid hŷn. Datgelodd yr ymchwil fod tua 800,000 o bobl rhwng 50 oed ac oedran cael pensiwn gwladol yn segur ond yn awyddus i weithio. Casgliad yr astudiaeth oedd mai'r unig ffordd o ddatrys y broblem yw gwneud newidiadau sylweddol i arferion cyflogwyr o ran hyfforddi, cadw a recriwtio staff hŷn.

Cynorthwyo merched mewn gwaith oedd thema digwyddiad dan arweiniad y Tywysog yn Clarence House ym mis Chwefror 2008 ar gyfer menywod busnes mwyaf llwyddiannus y wlad. Cynhaliwyd y derbyniad ar gyfer *Opportunity Now* (sy'n rhan o fudiad Ei Uchelder Brenhinol sy'n hybu busnesau yn y gymuned: *Business in the Community*). Gyda balchder, tynnodd y Tywysog sylw'r gynulleidfa o gyfarwyddwyr, prif weithredwyr ac uwch reolwyr at y ffaith fod dros hanner prif weithredwyr ei 19 elusen yn fenywod, yr un fath yn wir â thua hanner ei dîm o Ysgrifenyddion Preifat ac uwch gynghorwyr. Yn ôl Ei Uchelder Brenhinol: "Mae hyn yn gwneud i rywun feddwl am yr hyn y mae'n debyg i Dduw ei ddweud ar ôl creu Adam. 'Gallaf i wneud yn well' – a'r unig beth a allaf i ei ddweud heddiw wrth y fath gynulleidfa â chi yw: mae'n sicr mai dyna a wnaeth!"

BUSNES CYFRIFOL

Ers tro byd, bu diddordeb gan Dywysog Cymru mewn materion cymunedol a bu ganddo gysylltiadau agos ag arweinwyr byd busnes. Ar sail hynny, mae'r Tywysog mewn safle da i ddefnyddio'i ddylanwad i helpu i ddatblygu mentrau ym maes cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ledled y DU a thramor. Ei gred yw bod y gallu gan y sector preifat i wneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o'r sefyllfaoedd a'r problemau sy'n wynebu cymunedau.

Nid oes dwywaith mai o'r holl broblemau hynny, y newid yn yr hinsawdd yw'r bwysicaf. Mae Ei Uchelder Brenhinol yn parhau i ddefnyddio'i gysylltiadau cadarn â byd busnes i annog corfforaethau i wneud rhywbeth i ddiogelu'r amgylchedd.

Ym mis Tachwedd 2007, aeth Grŵp Newid yn yr Hinsawdd y Tywysog o Arweinwyr Corfforaethol (*The Prince's Corporate Leaders Group on Climate Change*, sydd ar waith dan awdurdod ei raglen Busnes a'r Amgylchedd) ati i ddrafftio neges o'r enw "*Bali Communiqué*", i alw uwch swyddogion rhai o gorfforaethau mwyaf y byd i ymuno yn y frwydr.

Roedd y neges yn annog arweinwyr y byd a oedd yn ymgasglu yn Bali ar gyfer cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr amgylchedd i fabwysiadu fframwaith cynhwysfawr â grym cyfreithiol o eiddo'r Cenhedloedd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Roedd y neges yn dod yn enw cynghrair mwy nag erioed o'r blaen o gynrychiolwyr y gymuned gorfforaethol fyd-eang – roedd 170 wedi llofnodi'r ddogfen yn cynnwys arweinwyr busnesau o Unol Daleithiau America, Ewrop, Awstralia a Tsieina. Cafodd ei chyhoeddi'r un pryd ag yr ysgrifennodd y Tywysog erthygl ar gyfer y *Financial Times* yn canmol y cwmnïau am eu "harweinyddiaeth hynod" ac yn mynegi ei "obaith taer" y byddai'r Communiqué'n "atgyfnerthu penderfyniad y rheini sydd wedi ymgasglu yn Bali i wneud y penderfyniadau anodd y mae gwir eu hangen ar y byd."

Mae Ei Uchelder Brenhinol yn credu bod gan y diwydiant yswiriant hefyd ran bwysig yn y gwaith o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, yn bennaf oherwydd mai'r diwydiant hwnnw sydd yn aml yn talu biliau difrod amgylcheddol. Ym mis Medi 2007, lansiodd y Tywysog fenter newydd i annog yswirwyr i hybu arferion gwyrddach ymhlith eu cwsmeriaid.

Gweithiodd dwy o elusennau'r Tywysog, Rhaglen Busnes a'r Amgylchedd Tywysog Cymru a Busnes yn y Gymuned (*Business in the Community* neu BITC) gyda'r sector yswiriant am flwyddyn i ddatblygu'r syniadau. Yn eu plith nhw oedd hybu polisïau moduro "talu wrth yrru" a disgowntiau ar gyfer cerbydau gwyrddach, a chynnig cyngor i berchnogion tai ynglŷn â gwneud eu tai'n fwy cydnaws â'r amgylchedd. Mae 38 o gwmnïau wedi mabwysiadu egwyddorion "ClimateWise" yn barod, yn cynnwys 10 o gwmnïau amlycaf a mwyaf y DU.

Mae BITC yn mynd ati bob blwyddyn i arwain seremoni o'r enw "*Awards for Excellence*" i anrhydeddu a gwobrwyo rhagoriaeth ymhlith cwmnïau sydd wedi rhagori ym maes cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, ac ym mis Gorffennaf 2007 ymunodd Al Gore, cyn Is-arlywydd UDA, â'r Tywysog yn y digwyddiad yn neuadd Royal Albert yn Llundain.

Cyflwynodd Ei Uchelder Brenhinol wobr Cennad y Flwyddyn ar gyfer 2007 i Syr Stuart Rose, Prif Weithredwr cwmni Marks & Spencer, i gydnabod ei ymdrechion i'w wneud yn fusnes amgylcheddol-gynaliadwy. Mae Syr Stuart, sydd wedi arwain y gadwyn o siopau stryd fawr am y tair blynedd diwethaf, wedi gwneud addewid y bydd M&S yn niwtral o ran carbon erbyn 2012, na fydd yn anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi, bydd yn ychwanegu at ei ffynonellau cynaliadwy, a bydd yn gosod safonau newydd o ran masnachu moesegol.

Cyflwynodd y Tywysog hefyd wobr EDF Energy am arweinyddiaeth amgylcheddol (EDF Energy Environmental Leadership award) i fanc Barclays am ei ymdrechion i integreiddio'i strategaeth amgylcheddol i'w fusnes craidd. Yn ystod y digwyddiad, canmolodd Al Gore Dywysog Cymru am ei arweinyddiaeth bendant ym maes newid yn yr hinsawdd, a dywedodd nad oedd gan unrhyw wlad arall heblaw'r DU arweinwyr gwleidyddol a rhai o bob un o sectorau byd busnes a oedd wedi ymrwymo i'r fath raddau i ddod o hyd i ateb i argyfwng yr hinsawdd.

Mae llawer yn cydnabod bod datblygu ffurfiau ar gludiant sy'n fwy caredig i'r amgylchedd yn rhan bwysig o'r frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd, ac ym mis Mehefin 2007 lansiodd y Tywysog y rali eco-geir o Brighton i Lundain ym Mhalas Hampton Court yn Llundain. Yn ystod y digwyddiad, cafodd Ei Uchelder Brenhinol gyfle i gwrdd â rhai o beirianwyr y cwmnïau cynhyrchu ceir mwyaf, a gwelodd nifer o geir sy'n defnyddio mathau o danwyddau a thechnolegau a ellid eu defnyddio yn y dyfodol. Cafodd gyfle hefyd i yrru cerbydau sy'n rhedeg ar gelloedd tanwydd hydrogen, hydrogen ICE (peiriant tanio mewnol), hybridiau a biodanwyddau.

Fis ar ôl y rali, gyrrodd y Tywysog un o geir y dyfodol pan aeth i Ganolfan Dechnoleg Ford yn Dunton i ddathlu'r 40 mlynedd ers ei sefydlu. Aeth y Tywysog y tu ôl i olwyn lywio math newydd o Ford Focus y mae peirianwyr yn hawlio y bydd yn gallu rhedeg am 70 milltir ar alwyn o betrol ac y bydd yn allyrru llawer llai o garbon i'r atmosffer na'r mathau presennol o geir. Dylai'r car fod ar y farchnad erbyn 2012, a bydd yn allyrru llai na 100 gram o CO_2 y cilometr, o gymharu â'r 150 gram y mae'r rhan fwyaf o'r ceir ar y ffordd ar hyn o bryd yn ei allyrru.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar yr amgylchedd, mae Ei Uchelder Brenhinol wedi bod ers blynyddoedd lawer yn annog busnesau i helpu i roi sylw i broblemau cymdeithasol yn eu cymunedau eu hunain. Ym mis Chwefror 2008, aeth i Burnley yn Swydd Gaerhirfryn i weld amryw o wahanol brojectau y mae chwech o'i elusennau'n eu cynorthwyo, ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Burnley, busnesau lleol a mudiadau eraill sy'n rhan o'r llywodraeth neu'n wirfoddol. Mae cyfraniad Elusennau'r Tywysog yn Burnley anarferol o sylweddol ac mae hynny'n arwydd o ymrwymiad Ei Uchelder Brenhinol yn y tymor hir i ymdrechion y dref i'w hadfywio'i hun.

Ymhlith y mentrau sydd eisoes ar waith, mae BITC wedi dechrau ar gyfres o ymweliadau â Burnley dan faner "A Wêl a Gred" (*Seeing is Believing*) Tywysog Cymru. Yn sgil un ymweliad yn unig, mae cwmnïau Greggs, Marks & Spencer a Sainsbury's yn ariannu clybiau brecwast mewn 15 o ysgolion mwyaf anghenus Burnley, am dair blynedd o leiaf. Mae Greggs ac Asda hefyd yn ariannu bws ieuenctid Burnley SPACE, gan weithio mewn partneriaeth gyda'r heddlu sy'n mynd i wahanol rannau o'r dref i gynnig cyngor, cymorth a chyfleusterau hamdden ar gyfer pobl ifanc.

Mae BITC wedi rhoi rhaglen fentora o'r enw *Mosaic Initiative* ar waith ar gyfer Mwslimiaid ifanc, ac mae wrthi ar hyn o bryd yn trefnu mentoriaid a phobl ifanc yn barau. Mae 10 o fusnesau yng ngogledd-orllewin Lloegr wedi ymuno â chlystyrau Addysg – Busnes i greu partneriaethau tymor hir rhwng ysgolion a busnesau, a'r nod yw atgyfnerthu'r cwricwlwm a'r cynlluniau prentisiaeth yn yr ardal. Ac mae'r mudiad *In Kind Direct*, sy'n dosbarthu'r nwyddau sydd gan gwmnïau dros ben i elusennau, yn cydweithredu gyda 55 o elusennau eraill yr ardal er mwyn i bawb elwa.

YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Mae Tywysog Cymru'n credu bod yr amgylchedd adeiledig yn dylanwadu'n fawr ar ansawdd bywydau pobl, a bod modd gwneud llawer mwy i greu cartrefi, swyddfeydd ac adeiladau cyhoeddus sy'n creu synnwyr o gymuned a balchder, ac sydd hefyd yn meithrin lles y rhai sy'n byw yno ac yn lleddfu problemau cymdeithasol.

Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig (*The Prince's Foundation for the Built Environment*) sydd yn bennaf gyfrifol am roi ei syniadau ar waith. Elusen addysgol yw hon a gafodd ei sefydlu gan Ei Uchelder Brenhinol yn 1990 i addysgu dulliau tragwyddol ac ecolegol o gynllunio, dylunio ac adeiladu, ac i roi'r dulliau hynny ar waith. O'i gartref yn nwyrain Llundain, mae'r Sefydliad yn cyfrannu at gyfres o brojectau ar draws y DU a thramor, sy'n amrywio o adfywio ac ymestyn trefi i ddatblygiadau ar hen safleoedd diwydiannol (safleoedd tir llwyd).

Yn ogystal â gweithredu fel ymgynghorydd cynllunio i bartneriaid a chleientiaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, mae'r Sefydliad yn addysgu sgiliau datblygu cynaliadwy trwy gynnal seminarau a gweithdai a thrwy ddefnyddio'i rwydwaith byd-eang i gylchredeg gwybodaeth am arferion newydd. Y pwyslais bob amser yw tynnu sylw at bwysigrwydd arloesi ac egwyddorion sydd wedi hen ennill eu plwyf fel ei gilydd wrth fynd ati i adeiladu cymunedau llwyddiannus.

Un o'r enghreifftiau enwocaf yw Poundbury, yr estyniad i dref Dorchester, yn Dorset. Mae Ei Uchelder Brenhinol yn cymryd grwpiau o bobl bob blwyddyn i weld Poundbury, lle y bu wrthi am bron i ddau ddegawd yn goruchwylio'r datblygiad ar dir Dugaeth Cernyw sydd bellach yn gymuned sydd wedi rhoi blaenoriaeth i bobl, nid ceir, a lle mae adeiladau masnachol wedi'u hintegreiddio ag ardaloedd preswyl (lle mae tai preifat yn gymysg â thai cymdeithasol), siopau a chyfleusterau hamdden i greu lle byw a gweithio gwareiddiedig lle mae'n bosib cerdded o'r naill le i'r llall.

Ar un o'r ymweliadau â Poundbury ym mis Ebrill 2007, aeth y Tywysog â Thywysog Coronog Bahrain ac arweinwyr rhai o wledydd eraill y Dwyrain Canol ar daith o gwmpas y dref, ac ar ymweliad arall ym mis Tachwedd aeth â tua 70 o brif swyddogion rhai o brif gwmnïau gwerthu tai America i'w gweld.

Un arall o brojectau'r Sefydliad yw'r un yn Upton, Swydd Northampton, ac ym mis Rhagfyr 2007 aeth y Tywysog â grŵp o chwech o brif Ysgrifenyddion Preifat Llywodraeth y DU i weld datblygiad o dai newydd yn y dref er mwyn dangos manteision dulliau'r Sefydliad o weithredu. Mae project Upton wedi bod ar waith am wyth mlynedd bellach, a'i nod yw creu cymuned sy'n wirioneddol gynaliadwy. Roedd ymweliad y Tywysog ag Upton gyda'r gweision sifil yn arwydd clir o'i ymrwymiad i'r syniad o "a wêl a gred". Mae'r Tywysog wedi hen sylweddoli bod rhoi cyfle i'r bobl sy'n gyfrifol am gynghori ynglŷn â pholisïau a gwneud penderfyniadau, weld y problemau drostyn nhw eu hunain, a dangos yr atebion mewn rhai achosion hefyd, yn ffordd o ennyn eu cefnogaeth i brojectau a mentrau sydd â'r nod o wella bywydau pobl.

Fe gafodd yr egwyddorion a oedd yn sail i waith y Sefydliad yn Upton sylw yn y trafodaethau yng nghynhadledd "*New Buildings in Old Places*" y bu'r Tywysog yn llywydd arni ym Mhalas St James's ym mis Ionawr 2008. Wrth rybuddio ynglŷn â chodi nendyrau'n agos at adeiladau hanesyddol – cyfeiriodd at y cynlluniau i osod tyrau newydd yn agos at Eglwys Gadeiriol St Paul's yn Llundain fel un enghraifft – dywedodd Ei Uchelder Brenhinol fod rhaid i ddatblygwyr ddeall "pwrpas adeilad neu grŵp o adeiladau fel rhan o hierarchaeth yr adeiladau o'i gwmpas... Mae gwneud hyn yn aml yn awgrymu creu un darlun esmwyth, yn hytrach na chodi un adeilad yn unol ag ewyllys bensaernïol neu gorfforaethol sydd ond yn ffordd o ateb gofynion ac anghenion hunanol." Chwilio am harmoni rhwng pobl a'u hamgylchedd adeiledig fel hyn yw sylfaen gwaith ei elusennau yn y maes hwn.

Un o'r elusennau hyn yw Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog (*The Prince's Regeneration Trust*) a oedd yn cyd-noddi'r gynhadledd "*New Buildings in Old Places*". Mae'r Ymddiriedolaeth hon yn gweithio ar brojectau adfywio sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth pob rhan o'r DU (mae tua 20 project ar waith ar hyn o bryd), a chadw ac ailddefnyddio hen adeiladau hanesyddol, yn arbennig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd.

Mae un o brojectau mwyaf anarferol yr Ymddiriedolaeth i'w weld ar fferm ger y Trallwng yng Nghymru, ac ym mis Mehefin 2007, aeth y Tywysog i'r safle i weld drosto'i hun sut roedd y gwaith o wneud yr adeiladau Fictorianaidd yn addas i'w defnyddio heddiw'n dod yn ei flaen. Tywyswyd Ei Uchelder Brenhinol o gwmpas sgubor a melin sydd wedi'i thrawsnewid yn Leighton Home Farm, pentref enghreifftiol gwasgaredig o'r 19eg ganrif sydd bellach yn gartref i ffermwr da byw, cwmni peirianneg, busnes saethu, cwmni tacsis a chrefftwr llechi.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y Tywysog gyfle i weld pwll slyri llawn dŵr sy'n dal yn ganolbwynt i'r adeilad crwn. Pan godwyd yr adeilad, sydd bellach yn gartref i gwmni dodrefn Rotunda Designs, yn yr 1850au, roedd y pwll ymhlith y cyfleusterau mwyaf modern gan fod y slyri'n cael ei bwmpio i danc storio ar ben fryn er mwyn gwrteithio tir ffermio'r ardal – enghraifft o ailgylchu a fyddai'n gweddu i'r 21ain ganrif.

Nid yw'n bosib rhoi bywyd newydd i adeiladau hanesyddol heb grefftwyr sydd â'r sgiliau i'w hadfer, ac mae'r Tywysog wedi bod wrthi ers blynyddoedd lawer yn hyrwyddo'r angen am brentisiaethau yn y sgiliau crefft. Ym mis Gorffennaf 2007, aeth i Eglwys Gadeiriol Lincoln i gwrdd â phrentisiaid mewn ysgol haf yn y crefftau adeiladu a drefnwyd gan ei Sefydliad er yr Amgylchedd Adeiledig. Sefydlwyd yr ysgol haf fel cyfle i tua 16 o brentisiaid y flwyddyn ddysgu mwy am grefftau a sgiliau, ac i archwilio ffyrdd o annog datblygwyr tai i adeiladu tai yn ôl dulliau sy'n niwtral o ran carbon. Yn ystod yr ymweliad, cafodd y Tywysog gyfle i weld adeiladwaith bio-frics a wal gywarch a chalch yr oedd prentisiaid yr ysgol wedi'u codi yng nghloestrau'r eglwys gadeiriol.

ADDYSG

Mae Tywysog Cymru'n credu'n daer yn yr egwyddorion tragwyddol sy'n sail i addysgu da o bob math, ac yn yr hyn y mae'n galw "yr edeifion gwerthfawr sydd bob amser wedi cysylltu'r cenedlaethau." Yr egwyddorion bythol hyn, a'r gred y gall y celfyddydau a diwylliant gyfoethogi bywydau pobl, yw sylfaen gwaith elusennau addysgol a chelfyddydol y Tywysog.

Un o'r elusennau mwyaf blaenllaw yw Sefydliad Addysgu'r Tywysog (*The Prince's Teaching Institute* neu PTI). Yr hen enw ar yr elusen oedd yr Ysgol Haf Addysg, sef seminar blynyddol wythnos o hyd a fu ar waith yn llwyddiannus iawn rhwng 2003 a 2007 yn hyfforddi athrawon. Mae'r PTI bellach yn elusen addysgol barhaol sy'n cynnig cyfleoedd i athrawon ysgolion gwladol gael hyfforddiant trwy gydol y flwyddyn.

Mae'r PTI yn canolbwyntio ar y pynciau Saesneg, Hanes, Gwyddoniaeth a Daearyddiaeth, ac athroniaeth graidd yr elusen yw'r gred mai gofynion hanfodol unrhyw addysgu effeithiol yw gwybodaeth drylwyr am y pwnc a'r brwdfrydedd i gyfleu'r wybodaeth honno. Mae hefyd yn credu y dylai addysg fod yn bennaf yn broses o gaffael gwybodaeth a dealltwriaeth, ac nid yn fater syml o ennill sgiliau.

Ym mis Tachwedd 2007, lansiodd Ei Uchelder Brenhinol Raglen Ysgolion newydd y PTI i gydnabod a gwobrwyo adrannau ysgolion sydd wedi mabwysiadu ei athroniaeth trwy ddatblygu syniadau a gweithgareddau ysbrydoledig sy'n gwella'r broses o addysgu eu pynciau. Mae'r rhaglen yn gwarantu lle i'w haelodau ar yr Ysgol Haf Addysgol nesaf, mynediad at adnoddau'r PTI ar y we, a disgownt ar bris mynediad i ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r fenter newydd hefyd yn ceisio annog ysgolion i bwyso a mesur a gwella'r pynciau y mae eu staff yn eu haddysgu ac i greu cysylltiadau cynhyrchiol â sefydliadau addysg uwch.

Un arall o brif nodweddion gwaith y PTI yw annog ysgolion i rannu â'i gilydd y cyfrinachau sy'n sail i'w llwyddiant. Ym mis Ionawr 2008, cynhaliodd Tywysog Cymru seminar yn Clarence House pan esboniodd cynrychiolwyr wyth o ysgolion sydd wedi gwella (sef ysgolion a fu'n tangyflawni ond sydd yn amlwg wedi gwella'u perfformiad yn sylweddol) wrth gynulleidfa o addysgwyr, gweinidogion Llywodraeth y DU, arolygwyr ysgolion a phenaethiaid hyfforddiant sut yr aethon nhw ati i helpu eu hysgolion i wella'u cyflawniad, a'r gwersi a ddysgon nhw o'r profiad.

Roedd cyflwyniadau'r wyth ysgol yn tynnu sylw at nifer o bethau. Yn eu plith roedd pwysigrwydd arweinyddiaeth a phwrpas clir ac o osod disgwyliadau academaidd uchel, yr angen i ganolbwyntio ar roi cyfarwyddiadau ac i ymrwymo i addysgu pynciau, a gwerth cynnig gweithgareddau a chyfleoedd i'r disgyblion y tu allan i gwricwlwm yr ysgol.

Elusen addysgol yw Ysgol Arlunio'r Tywysog (*The Prince's Drawing School)* sy'n canolbwyntio ar addysgu arlunio fel iaith fyw sy'n esblygu y mae'n rhaid ei chael i ddeall a gwerthfawrogi celfyddyd a phensaernïaeth. O'i chartref mewn hen warws ar ei newydd wedd yn Shoreditch yng nghanol cymuned greadigol pen dwyreiniol Llundain, mae'r ysgol yn cynnig dewis helaeth o gyrsiau, yn cynnwys cyrsiau meistr yn ei stiwdios ac mewn amgueddfeydd cenedlaethol a mannau eraill, ac mae hefyd yn rhedeg gweithdai yn y gwyliau a rhaglenni cymunedol. Mae dros 400 o fyfyrwyr yn dod i wahanol ddosbarthiadau'r ysgol bob wythnos.

Mae gwaith Ysgol y Tywysog er y Celfyddydau Traddodiadol (*The Prince's School of Traditional Arts* neu PSTA) sy'n addysgu sgiliau celfyddyd a chrefft y prif draddodiadau ffydd, yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'w chartref yn Llundain. Yng Ngwlad yr Iorddonen, mae rhai o raddedigion PSTA wedi helpu i ail-greu minbar amhrisiadwy Saladin (ar y dde), gwaith unigryw o gelfyddyd Islamaidd o'r 12fed ganrif a gafodd ei ddinistrio yn 1969. Roedd y gwaith o adeiladu'r minbar newydd, sef pulpud sydd wedi'i wneud o 16,000 darn o bren, ifori ac eboni a gerfiwyd â llaw, yn destun ffilm o'r enw "*Stairway to Heaven*" a wnaethpwyd gan Elusennau'r Tywysog yn 2007.

Yn ystod y dangosiad Brenhinol o'r ffilm ym mis Ebrill, esboniodd y cynhyrchydd Andre Singer sut yr ysbrydolodd y Tywysog y project: "Aeth y Tywysog i Wlad yr Iorddonen a gwelodd y gwaith a oedd yn cael ei wneud. Sylweddolodd y gallai ei ysgol yn Llundain helpu i wneud peth ohono – gan ail-greu'r crefftau traddodiadol hynny. Meddyliodd hefyd 'oni fyddai'n syniad gwych i gofnodi'r crefftau hyn ar ffilm?'"

Ym mis Mai 2007, agorodd y Tywysog a Duges Cernyw arddangosfa arbennig yng Nghaeredin sy'n arddangos gwaith myfyrwyr Coleg Celf Caeredin a'r Ysgol Arlunio fel ei gilydd. Yn ogystal â gweld rhai o'r gweithiau a oedd yn cael eu harddangos, cafodd y Tywysog, sy'n arlunydd brwd ei hun, a'r Dduges gyfle i sgwrsio gyda'r myfyrwyr ynglŷn â'u gwaith a oedd yn cynnwys ffotograffiaeth, paentio a gemwaith. Mae Ysgol Celf Caeredin yn un o brif ysgolion celf annibynnol y DU, ac yno y mae'r Academi Arlunio hynaf ym Mhrydain gan iddi gael ei sefydlu yn 1729.

Mae Sefydliad y Tywysog er Plant a'r Celfyddydau (*The Prince's Foundation for Children & The Arts* neu ei hen enw *Arts & Kids)* yn mynd ati i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc fynd at y celfyddydau gorau un. Athroniaeth yr elusen yw bod y celfyddydau'n gweddnewid bywydau pobl a'u bod nhw'n elfen hanfodol ar y natur ddynol yr ydyn ni'n ei rhannu. Mae'n targedu'n benodol blant na fyddai fel arall wedi cael cyfle i ymwneud â phob math o gelfyddyd, yn cynnwys dawns, theatr, opera, llenyddiaeth a'r celfyddydau gweledol.

Ym mis Ionawr 2008, aeth y Tywysog a Duges Cernyw i Theatr Unicorn yn Llundain i wylio plant yn cymryd rhan yn "*TheatrQuest*", rhaglen dan ofal y Sefydliad sy'n anelu at helpu pobl ifanc i gael profiad o "fyd hudol" y theatr. Yn bresennol hefyd oedd yr actores Penelope Keith, un o hyrwyddwyr yr elusen, a dywedodd hi ar ôl y perfformiad: "Rhaid i chi gofio nad yw pob plentyn yn ysu am gael gwneud gwaith academaidd. Mae hwn yn rhoi blas iddyn nhw o fyd arall. Mae'n agor eu meddyliau - yn fwy felly nag y mae llyfrau'n ei wneud efallai. Dywedodd pob un ei fod yn teimlo'n fwy hyderus, ac rwy'n mawr obeithio y byddan nhw'n credu nawr fod pobl yn barod i edrych a gwrando arnyn nhw."

Mae'r Tywysog yn poeni hefyd am yr hyn sy'n mynd i mewn i gyrff disgyblion, yn ogystal â chynnwys eu meddyliau. Mae wedi bod wrthi ers tro byd yn ceisio annog ysgolion i gynnig prydau bwyd iach, ac ym mis Chwefror 2007 gwahoddodd y Tywysog a'r Dduges gogyddion 60 o ysgolion i Clarence House i ddiolch iddyn nhw am wella prydau eu hysgolion, am brynu mwy o fwyd lleol (mae'r Tywysog yn cyflenwi tatws a moron o Duchy Home Farm i rai o ysgolion yr ardal) ac am addysgu plant ynglŷn â bwyd ac o ble mae bwyd yn dod. Yn ymuno â'u Huchelderau Brenhinol yn y digwyddiad oedd y pen-cogydd teledu Jamie Oliver, sydd wedi arwain ymgyrch amlwg iawn i wella'r bwyd yn ysgolion y DU.

IECHYD

Ers peth amser, bu Tywysog Cymru'n ymwneud â llawer o wahanol fudiadau yn y sector gofal iechyd, yn cynnwys ysbytai a hosbisau y mae'n eu helpu'n bersonol trwy gynnig cefnogaeth a chyllid, a gwneud ymweliadau rheolaidd. Bu ers tro byd o blaid dull integredig o feddwl am ofal iechyd. Mae hyn yn golygu rhoi pwyslais ar atal problemau iechyd ac ar fynd i'r afael â'r achosion cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n peryglu iechyd. Mae hefyd yn golygu defnyddio therapïau cyflenwol sydd wedi'u profi, ar y cyd â meddygaeth gonfensiynol.

Yr athroniaeth hon ym maes gofal iechyd yw sylfaen gwaith y Sefydliad er Iechyd Integredig (*The Foundation for Integrated Health* neu FIH), elusen a sefydlodd y Tywysog yn 1993 i hybu a chynnal y broses o ddarparu gofal iechyd integredig ac i annog gwell gwaith ymchwil i arferion iechyd cyflenwol, ac i'w rheoleiddio'n well.

Un o ddatblygiadau pwysicaf 2007-08 oedd creu Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol (*The Complementary and Natural Healthcare Council*), y corff rheoleiddio gwirfoddol proffesiynol cyntaf o'i fath yn y DU. Ffrwyth blynyddoedd o waith gan FIH yw sefydlu'r Cyngor. Gyda chymorth grant o £900,000 gan yr Adran Iechyd, gweithiodd FIH gyda'r prif broffesiynau gofal iechyd cyflenwol i sefydlu'r Cyngor fel corff rheoleiddio a fyddai'n gosod safonau ar gyfer ymarferwyr cofrestredig ac, wrth wneud hynny, yn codi hyder defnyddwyr yn y triniaethau y maen nhw'n eu cynnig.

Un o uchafbwyntiau bob blwyddyn yw'r seremoni dyfarnu Gwobrwyon Iechyd Integredig y mae'r FIH yn ei threfnu. Nod y gwobrwyon yw anrhydeddu mudiadau sy'n helpu pobl i reoli eu hiechyd corfforol, emosiynol a meddyliol yn well ac i ddangos sut y gall meddwl am iechyd mewn ffordd greadigol ac arloesol arwain at wahaniaethau go iawn i unigolion a chymunedau.

Yn ystod y seremoni ym mis Mawrth 2008 galwodd Ei Uchelder Brenhinol ar i bobl roi mwy o gydnabyddiaeth i'r manteision sy'n dod yn sgil cyfuno triniaethau confensiynol a chyflenwol ar ffurf system lle "mae modd i gryfderau mwyaf gwerthfawr gwyddoniaeth a thechnoleg a'r holl fanteision sy'n dod yn eu sgil, gyd-redeg â'r gorau sydd ar gael trwy therapïau cyflenwol traddodiadol sydd wedi ennill eu plwyf dros amser.

Enillydd y brif wobr yn y seremoni oedd cynllun cefnogi teuluoedd o'r Alban sy'n helpu rhieni i frwydro yn erbyn tlodi, teimlo'n ynysig a chaethiwed i gyffuriau. Mae cynllun *Midlothian Sure Start* yn rhedeg chwe chanolfan cynorthwyo teuluoedd yn yr Alban ar gyfer teuluoedd hawdd eu niweidio. Mae'n helpu plant ifanc i ddysgu trwy chwarae, ac yn helpu eu rhieni trwy gyfrwng cyrsiau datblygu, cynghori a therapïau cyflenwol.

Mae Duges Cernyw hefyd yn ymwneud â nifer o elusennau iechyd. Ei rôl fwyaf amlwg yw ei gwaith fel Llywydd y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol, mudiad y bu'n ei gynorthwyo am flynyddoedd lawer. Cafodd ei gwaith dyfal yn gwneud pobl yn fwy ymwybodol o osteoporosis dros y degawd diwethaf ei gydnabod ddwywaith yn ystod 2007; y tro cyntaf ym mis Medi pan gafodd ei gwneud yn gymrodor anrhydeddus yng Ngholeg y Brenin yn Llundain, ac yna ym mis Hydref pan ddyfarnwyd Gwobr Kohn iddi ar gyfer 2007.

MENTERGARWCH CYMDEITHASOL

Mae Tywysog Cymru wedi credu ers tro byd y gall busnesau fod yn llwyddiannus ac, ar yr un pryd, roi sylw i fuddion cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach y gymuned. Mae llwyddiant cwmni Ei Uchelder Brenhinol, *Duchy Originals*, yn tystio i'r ffaith nad yw cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol da a gwneud elw'n ddau beth cwbl groes i'w gilydd.

Cafodd *Duchy Originals* ei sefydlu yn 1990 i greu "cylch bendithiol" ar ffurf cwmni sy'n codi elw ar gyfer elusennau trwy werthu bwyd naturiol o safon a chynnyrch arall, ond sy'n helpu i amddiffyn a chynnal yr amgylchedd a chynorthwyo ffermydd a chynhyrchwyr bach yr un pryd. Erbyn hyn, mae *Duchy Originals* wedi cyfrannu dros £7.5 miliwn at Sefydliad Elusennau Tywysog Cymru. Ers iddo sefydlu *Duchy Originals*, mae'r Tywysog wedi sefydlu pum "menter gymdeithasol" arall i weithredu fel busnesau masnachol sy'n codi arian at elusennau Ei Uchelder Brenhinol.

Celfyddydau'r Mynydd Gwyrddlas (*Turquoise Mountain Arts*) yw cangen fasnachol Sefydliad y Mynydd Gwyrddlas, elusen a sefydlodd y Tywysog a Hamid Karzai, Arlywydd Affganistan, i helpu'r gwaith o adfywio economi, cymdeithas a diwylliant un rhan o hen ddinas Kabul. Mae *Turquoise Mountain Arts* yn chwilio am farchnadoedd ar gyfer gweithiau crefft a gafodd eu dylunio a'u gwneud yn yr unig ganolfan yn Affganistan ar gyfer celfyddydau Affgan traddodiadol y mae'r elusen yn ei rhedeg. Mae hefyd yn hyfforddi crefftwyr ifanc mewn sgiliau busnes, gan eu paratoi i lwyddo fel artistiaid ac entrepreneuriaid fel ei gilydd. Mae mwy o wybodaeth am y mudiad ar www.turquoisemountainarts.af.

Yn yr un ffordd, mae *Traditional Arts Ltd* yn gweithredu fel cangen fasnachu Ysgol y Tywysog er y Celfyddydau Traddodiadol, elusen sydd â'i chartref yn Nwyrain Llundain ac sy'n addysgu sgiliau celfyddyd a chrefft prif draddodiadau ffydd y byd. Mae'r cwmni'n marchnata a gwerthu casgliad o lestri tsieni a chynnyrch addurnol mewn gwydr, arian a deunyddiau eraill sydd wedi'u seilio ar gynlluniau myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr yr Ysgol er y Celfyddydau Traddodiadol. Mae'r holl elw mae *Traditional Arts Ltd* yn ei wneud yn mynd i'r Ysgol.

Mae siop Highgrove wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer yn yr Ystafell Berllan yng ngerddi Highgrove yn gwerthu anrhegion a chynnyrch i bobl sy'n ymweld â'r gerddi. Eleni, agorwyd ail siop yn Tetbury, Swydd Gaerloyw. Mae'r siop newydd, a agorodd ei drysau ym mis Mawrth 2008, yn gwerthu llawer mwy o nwyddau, yn cynnwys llysiau o Home Farm, ac mae ar agor bob diwrnod o'r wythnos. Mae'r elw o'r ddwy fenter yn mynd i Sefydliad Elusennau'r Tywysog.

Mae *The Prince's Charities Events Ltd* yn un o is-gwmnïau Sefydliad Elusennau'r Tywysog, a phwrpas y gwaith masnachol mae'n ei wneud yw codi arian ar gyfer y grŵp, ac mae'n gwneud hynny'n bennaf trwy raglen o ddigwyddiadau ym myd ffilm, chwaraeon, cerddoriaeth a diwylliant. Ymhlith y digwyddiadau a drefnodd yn ystod 2007-08 oedd gêm griced yng Nglasgow rhwng India a Phacistan, ac er bod y tywydd wedi rhwystro'r gêm rhag cael ei chwarae, llwyddwyd o hyd i godi llawer o arian at yr Ymddiriedolaeth Brydeinig Asiaidd.

Yn olaf, cafodd Menter Gogledd yr Ucheldiroedd (cyfeiriwch at dudalennau 14 ac 15) ei lansio gan y Tywysog yn 2005.

Cafodd *Duchy Originals* ei sefydlu yn 1990 i greu "cylch bendithiol" ar ffurf cwmni sy'n codi elw ar gyfer elusennau.